# P-04-419 : Moratoriwm ar Ddatblygu Ffermydd Gwynt

Geiriad y ddeiseb

Galwn ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn i Lywodraeth Cymru am foratoriwm ar ddatblygu ffermydd gwynt a thyrbinau gwynt y mae ganddi gyfrifoldeb datganoledig drostynt. Bydd y moratoriwm yn gyfnod o fyfyrio, a bydd pwyllgor trawsbleidiol yn cael ei gynnull yn yr amser hwn i archwilio effeithiau gweithredu tyrbinau gwynt ar iechyd, lles cymdeithasol, gwerth adeiladau, twristiaeth, a'r economi leol, o fewn 15 kilometr i'r safleoedd hyn.

Gofynnwn i'r pwyllgor trawsbleidiol gael caniatâd i gomisiynu gwaith ymchwil annibynnol ar faterion datganoledig iechyd, lles cymdeithasol a thwristiaeth mewn perthynas â thyrbinau gwynt, ac i gytuno ar gyfres o safonau ar gyfer ynni gwynt datganoledig, a fydd yn blaenoriaethu gofalu am yr amgylchedd lleol, tir amwynderau, cynefinoedd a natur.

Gofynnwn hefyd i bob safle tyrbin gwynt ddatganoledig orfod cael cymeradwyaeth mewn refferendwm lleol (o fewn 5 kilometr).

Nid yw'r ddeiseb hon yn ymwneud ag ynni gwynt a reolir gan Gyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol.

Prif ddeisebydd: James Shepherd Foster

Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 2 Hydref 2012

Nifer y llofnodion: 1332